| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **8 Tachwedd 2018** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth / Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Comisiynu Atal Digartrefedd** |
| **Teitl:** | **Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd a'r Cynllun Comisiynu drafft ar gyfer 2019-22** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y cynnydd a wnaed hyd yma wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd, gan gynnwys y camau sy'n ofynnol o dan Strategaeth Ddigartrefedd Sir Ddinbych 2017-21; Cynllun (Comisiynu) Blynyddol Cefnogi Pobl / Atal Digartrefedd Sir Ddinbych, ac argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: 'Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd' (Mis Ionawr 2018).

1.2. Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd Sir Ddinbych drafft ar gyfer 2019-22, sy'n nodi sut rydym yn bwriadu mynd ati dros y tair blynedd nesaf i ddatblygu ac ail-lunio prosiectau yn Sir Ddinbych sy'n cefnogi pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybod am y cynnydd hyd yma wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd (gan gynnwys y sefyllfa ddiweddaraf o ran dyfodol cyllid Cefnogi Pobl). Cytunwyd yn y Pwyllgor Craffu fis Tachwedd 2017 y dylid cyflwyno adroddiad ar gynnydd wrth gyflawni'r Strategaeth a'r Cynllun (y Cynllun Gweithredu) i'r Pwyllgor bob chwe mis.

2.2. Rhannu'r drafft o Gynllun Comisiynu Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd Sir Ddinbych â'r Pwyllgor Craffu er penderfyniad cyn iddo fynd gerbron y Cabinet.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Craffu yn:

3.1. cefnogi darpariaeth y Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd, i sicrhau fod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion;

3.2. ffyddiog y datblygir cynlluniau i liniaru ar unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyllid Cefnogi Pobl yn y dyfodol.

3.3. gwneud sylwadau ac argymhellion cyn i'r Cynllun Comisiynu fynd gerbron y Cabinet fis Rhagfyr.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. 4.1 Mae Tîm Atal Digartrefedd Sir Ddinbych a'i bartneriaid yn dal i ddatblygu cynllun gweithredu eang ac yn gweithio'n unol ag ef. Mae'r cynllun hwnnw'n seiliedig ar Strategaeth Digartrefedd Sir Ddinbych 2017-21 (y Strategaeth) a Chynllun Comisiynu Blynyddol Cefnogi Pobl / Atal Digartrefedd 2018/19 (y Cynllun), yn ogystal ag argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: 'Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd' (Mis Ionawr 2018).

4.2. Datblygwyd y Strategaeth, sy'n gosod y cyfeiriad yn gyffredinol yn hyn o beth, yn unol â'r gofyniad statudol ar y Cyngor o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ac fe'i cyflawnir yn yr un modd. Mae'n rhaid cyflawni'r Strategaeth mewn partneriaeth rhwng holl adrannau'r Cyngor a'n partneriaid allanol, os ydym am lwyddo i gyflawni'r weledigaeth: Rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn bwysicach fyth gan ystyried y gwasgfeydd ar y gyllideb Atal Digartrefedd.

4.3. 4.3. Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn rhoi braslun o'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyflawni'r camau allweddol ar gyfer 2017/18 a 2018/19, wedi ei rannu yn ôl meysydd blaenoriaeth ar sail y casgliad o flaenoriaethau a gyflwynir yn y Strategaeth, y Cynllun, a'r wyth o argymhellion yn adroddiad SAC, fel a ganlyn:

- 4.3.1. Datblygu Gwasanaeth Atal Digartrefedd Cyfannol, sy'n seiliedig ar seicoleg
- 4.3.2. Atal Digartrefedd gan ystyried y Prif Achosion, gan gynnwys trechu tlodi
- 4.3.3. Defnyddio llai o Lety Dros Dro, a cheisio rhoi'r gorau i ddefnyddio Llety Gwely a Brecwast
- 4.3.4. Gwella Mynediad at Lety
- 4.3.5. Datblygu dull integredig o gefnogi pobl gydag anghenion lluosog / cymhleth
- 4.3.6. Atal Digartrefedd Pobl Ifanc, gan gynnwys sefydlu dull 'Llwybr Cadarnhaol'
- 4.3.7. Cynnwys Dinasyddion
- 4.3.8. Cynaladwyedd cefnogaeth sy'n ymwneud â thai, gan gynnwys gwneud y gorau o'r ddarpariaeth bresennol.

4.4. Mae'r Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd drafft ar gyfer 2019-22 yn olynu'r Cynllun Comisiynu blaenorol ar gyfer 2018/19. Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r Cyngor gyflwyno Cynllun Comisiynu tair blynedd i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a'i ddiweddaru fis Ionawr bob blwyddyn. Mae'r Cynllun yn rhoi trosolwg o'n blaenoriaethau a'n cynlluniau ar gyfer 2019-22, yn bennaf ynghylch datblygu gwasanaethau a gomisiynir drwy'r grant Cefnogi Pobl, yn ebsonio pam rydym ni'n gwneud yr hyn rydym ni'n ei wneud a beth mae hyn yn ei olygu i'r bobl y mae'n effeithio arnynt. Mae'r Cynllun Comisiynu yn rhan allweddol o gyflawni'r Strategaeth Digartrefedd.

4.5. Bydd y Cynllun Blynyddol hefyd yn cynnwys cynllun gwario blynyddol llawn ar gyfer y Grant Cefnogi Pobl; ond nid yw'n bosibl cynhyrchu cynllun gwario nes bydd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ein cyllideb. Er nad ydym yn rhagweld unrhyw doriadau yn 2019/20, bydd gennym gynllun wrth gefn fel yn y blynyddoedd o'r blaen ar gyfer toriadau o 5%, gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd ac ail-lunio'r gwasanaethau presennol. Byddwn bob amser yn ceisio lliniaru ar unrhyw doriadau

cymaint â phosibl trwy gynllunio a thrafod yn ofalus gyda darparwyr gwasanaethau a budd-ddeiliaid eraill yn lleol ac yn rhanbarthol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Cynllun Gweithredu a'r Cynllun Comisiynu yn cyfrannu at ategu Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2017-22 yn y meysydd canlynol:

- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid
- Mae pobl iau eisiau byw a gweithio yma, ac mae ganddynt y sgiliau i wneud hynny

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. 6.1. Bydd gan gamau gweithredu gofynnol parhaus ac yn y dyfodol oblygiadau sylweddol ar gyfer y gyllideb ddigartrefedd statudol a'r Grant Cefnogi Pobl - y mae'r olaf o'r rhain wedi'i glustnodi gan Lywodraeth Cymru, ac y mae'r cyntaf yn dod o'r gyllideb ganolog ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Cymunedol.

6.2. 6.2 Fel gydag unrhyw strategaeth/cynllun gweithredu arall, bydd angen buddsoddi adnoddau sylweddol. Rheolir hyn o fewn y cyllidebau presennol sydd wedi'u dyrannu; ond bydd gofyn hefyd i'r Tîm Atal Digartrefedd weithio a buddsoddi ar y cyd â phartneriaid mewnol ac allanol. Caiff unrhyw gynlluniau o'r fath eu datblygu a'u rheoli trwy'r sianelau perthnasol, gan gynnwys y Grŵp Cynllunio Atal Digartrefedd. Mae hefyd yn hanfodol i ni gael cefnogaeth ar bob lefel, gan gynnwys yn gorfforaethol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Lesiant?

7.1. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Lesiant eisoes wedi cael eu cwblhau ar gyfer y Cynllun Gweithredu (yng nghyswllt y Strategaeth a Chynllun Comisiynu 2018/19) a'u rhannu gyda'r Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet yn 2017.

7.2. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Lesiant ar gyfer Cynllun Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd drafft 2019-22 ar 11/09/2018, ar y cyd â'r Grŵp Cynllunio Atal Digartrefedd. Rhoddwyd sgôr o 28 pwynt allan o 30 o ran cynaladwyedd y Cynllun, a nodwyd ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol i bob un o'r saith Nod Llesiant (gyda strategaethau wedi'u nodi i fynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau negyddol anfwriadol posibl).

## 8. Pa ymgyngoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r Strategaeth wedi'i seilio'n bennaf ar ganfyddiadau Adolygiad Digartrefedd 2016, a luniwyd ar sail ymgynghoriad sylweddol. Yna, datblygwyd y strategaeth ei hun yn bennaf gan y Grŵp Llywio Atal Digartrefedd amlasiantaeth, gyda chyfraniad ychwanegol gan y Grŵp Cynllunio Atal Digartrefedd. Mae hefyd wedi bod trwy gyfnod ymgynghori ffurfiol (13/07/2017 – 10/08/2017), pan geisiwyd ymatebion gan ddinasyddion, darparwyr gwasanaethau a'n partneriaid eraill. Ymgynghorwyd ar y Cynllun hefyd yn y Diwrnod Atal Digartrefedd Blynyddol fis Awst 2017, lle'r oedd nifer o ddinasyddion a budd-ddeiliaid eraill yn bresennol. Wedi i'r Pwyllgor Craffu

Partneriaethau gwrdd fis Tachwedd 2017, rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i'r Strategaeth fis Rhagfyr 2017. Ers hynny mae'r Grŵp Cynllunio Atal Digartrefedd wedi dal i fonitro'r Cynllun Gweithredu, a bu Craffu'n ei drafod fis Mai 2018.

8.2. Mae'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Comisiynu yn seiliedig ar ystod o wybodaeth y buom yn ei chasglu drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys barn dinasyddion, gyda'n Swyddog Cynnwys Dinasyddion yn cydweithio'n agos ar brosiectau i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed. Yn 2018 oedd y tro cyntaf inni gynnal ein digwyddiad digartrefedd blynyddol (sydd â chysylltiadau agos â'n cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth) ar y cyd â phobl oedd wedi byw drwy'r profiad. Ar bob cam yn natblygiad y Cynllun, ymgynghorwyd â'r Grŵp Cynllunio Atal Digartrefedd, a chafwyd eu cymeradwyaeth. Mae'r Cynllun hefyd wedi bod trwy gyfnod ymgynghori ffurfiol (21/09/2018 – 02/11/2018).

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Daw'r goblygiadau o ran y costau'n fwy amlwg wrth i'r camau gweithredu yn y Cynllun ddatblygu, a dylai'r adnoddau presennol fod yn ddigonol yn hynny o beth. Er y credir bod lefelau cyllido'r grant Cefnogi Pobl yn sefydlog ar y cyfan yn y tymor byr, gallai newidiadau mewn polisi neu ddosbarthiad gael effaith yn y dyfodol. Dull cyffredinol y Cyngor yw trosglwyddo gostyngiadau mewn arian grant ymlaen i'r gwasanaeth a ddarperir.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Er gwaethaf cyhoeddiadau diweddar Llywodraeth Cymru ynglŷn â'i gyllideb, yn nodi na fydd y Grant Cefnogi Pobl yn cael ei leihau ar lefel genedlaethol, gallai Llywodraeth Cymru barhau o hyd gyda fformiwla ailddosbarthu'r Grant CP. Byddai hyn yn golygu gostyngiad yn y grant i Sir Ddinbych yn y dyfodol.

10.2. 10.2. Rhaid i ni hefyd aros am gadarnhad ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer y grant cymorth tai cyfun a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a chyfrannu at ei ddatblygiad lle bo modd, i sicrhau y diogelir gwasanaethau atal digartrefedd yn y rheng flaen. Mae'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn amhendant ar hyn o bryd.

10.3. Mae Sir Ddinbych wrthi'n cynllunio'n barhaus i liniaru ar unrhyw ostyngiad yn y grant yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y Cynllun Gweithredu a'r Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl yn dal yn ariannol hyfyw ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Erthygl 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau'r Pwyllgor Craffu o ran adolygu perfformiad y Cyngor mewn perthynas ag amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth penodol.

**Swyddog Cyswllt:**
Swyddog Comisiynu Atal Digartrefedd
Ffôn: 01824 712304